EISTEDDFOD

Lleihau Trosedd a Diogelwch Personol yn yr Eisteddfod

Mae'r Eisteddfod yn ŵyl fawr a heddychlon, ond mae rhywfaint o droseddu yn gallu digwydd.

Lladrata yw'r drosedd fwyaf cyffredin, a gall hyn fod yn lladrad oddi arnoch chi yn bersonol neu o bebyll. Darperir cyfleusterau cloi eiddo, ac mae staff diogelwch a stiwardiaid yn gofalu am y safle. Defnyddir camerâu cylch cyfyng - ar y safle ac oddi ar y safle - er mwyn atal trosedd.

Gallwch helpu chi eich hun drwy ddilyn y cyngor isod. Peidiwch â gadael i droseddwyr ddifetha eich mwynhad drwy gyflawni trosedd yn eich erbyn chi neu'ch ffrindiau.

## Eiddo

- Gwagiwch a chlowch eich cerbydau. Gadewch y blwch menig ar agor ac yn amlwg yn wag. Ewch ag unrhyw beth gwerthfawr gyda chi a defnyddiwch un o'r cypyrddau ar y safle i'w gadw'n ddiogel.
- Dewch â dim ond yr hyn y gallwch fforddio ei golli gyda chi.
- Gosodwch eich pabell wrth ymyl un eich ffrindiau, a gwnewch ffrindiau gyda'ch cymdogion. Cadwch olwg ar eiddo eich gilydd.
- Marciwch eich eiddo: rhowch label clir ar eich eiddo (gan gynnwys eich pabell) gyda'ch cod post. Bydd rhoi marc amlwg na ellir ei ddileu yn cynyddu'r siawns i'ch eiddo gael ei ddychwelyd os deuir o hyd iddo. Cysylltwch rif ffôn a chyfeiriad ffrind i'ch allweddi. Defnyddiwch y mannau cloi diogel ar y safle (codir tâl) ar gyfer eich eitemau gwerthfawr a'ch eiddo personol arall.
- Os ydych yn dod i'r Eisteddfod ar gefn beic fe fydd man lle y gallwch gloi eich beic ar y safle.
- Ewch ag unrhyw eitemau gwerthfawr - gan gynnwys meddyginiaethau ar bresgripsiwn - gyda chi pan fyddwch yn gadael eich pabell: gwnewch yn siŵr eu bod nhw gyda chi neu gallwch eu cadw yn y mannau cloi diogel. Cofrestrwch eich eiddo cyn i chi fynd ar gronfa ddata genedlaethol rad ac am ddim o'r enw www.immobilise.com
- Er mwyn gwneud pethau'n anodd i ladron, gadewch eich pabell yn flêr fel nad oes bag amlwg i'w fachu yn sydyn.

## Cyngor Lladrad / Pebyll

Er mwyn ceisio sicrhau nad oes lladradau yn digwydd gyda'r nos, rhowch eich waled/pwrs/ffôn, i mewn yn eich sach cysgu gyda chi tra eich bod yn cysgu.

- Ni fydd cadw eich bag llaw neu eich ffôn wrth ymyl eich gobennydd yn eich atal rhag dioddef lladrad posib. Rhowch nhw y tu mewn i'ch sach cysgu tra eich bod yn cysgu.
- Peidiwch â gadael eich waled/ffôn/arian parod ym mhocedi eich trowsus neu eich siorts, gan fod y rhain yn cael eu bachu gan leidr sy'n cymryd yn ganiatаol eich bod wedi eu gadael yno! Rhowch nhw y tu mewn i'ch sach cysgu gyda chi.
- Mae rhai pebyll yn caniatáu i chi symud y sip y naill ffordd a'r llall. Os yw sip y babell wedi cael ei gau i lawr yr unig beth sydd raid i leidr ei wneud yw agor y sip ychydig o'r ffordd a gall gyrraedd yn hawdd i mewn i waelod eich pabell. Gallant hefyd fod ar eu cwrcwd ac allan o'r golwg. Os ydych wedi cau'r sip I FYNY ni all lleidr estyn i mewn mor hawdd, ac efallai y bydd raid iddo aros ar ei draed a bod yn haws ei weld.
- Byddwch yn ddyfeisgar wrth guddio eich eitemau gwerthfawr pan fyddwch yn cysgu: efallai na fyddwch yn clywed rhywun yn dod i mewn i'ch pabell, felly cadwch eitemau gwerthfawr a symiau o arian ar wahân a'u cuddio mewn gwahanol lefydd yn eich pabell, neu'n well byth, rhowch nhw yn eich sach cysgu gyda chi.

- Os ydych chi'n meddwl y byddwch wedi anghofio ymhle yr ydych wedi gosod eich pabell, tynnwch lun o'r ardal ac unrhyw nodweddion anarferol gerllaw ar eich ffôn symudol fel y gallwch weld beth sy'n edrych yn gyfarwydd.

## Ffonau symudol

- Gwnewch nodyn o'r rhif IMEI ar gyfer unrhyw ffonau symudol sydd gennych. Gallwch weld beth yw hwn drwy bwyso *#06# ar eich ffôn. Bydd hyn yn galluogi i'ch darparwr gwasanaeth ganslo'r darn llaw a sicrhau nad yw'n dda i ddim i neb arall sy'n ei ddefnyddio os caiff ei ddwyn.
- Defnyddiwch yr ap 'find my phone' neu rywbeth tebyg. Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi unrhyw enwau defnyddiwr neu gyfrineiriau.
- Rhestrwch ychydig o gysylltiadau fel rhai ICE. (In Case of Emergency) ar eich ffôn symudol, fel y bydd y gwasanaethau brys, os daw i'r gwaethaf, yn gallu cysylltu â'ch teulu – gall hefyd olygu y gallwn gael y ffôn yn ôl i chi. (Rhifau ffôn rhieni ac aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau agos ddylai'r rhifau ICE fod).

## Diogelwch Personol

- Mae trefnu man cyfarfod gyda'ch ffrindiau rhag ofn i chi gael eich gwahanu yn hanfodol gan na ellir dibynnu ar gael signal ffôn ac mae'n hawdd methu galwadau ffôn oherwydd lefelau sŵn. Trefnwch fannau cyfarfod ar gyfer ardaloedd gwahanol fel y gallwch chi i gyd ddod at eich gilydd yn gyflym ac yn hawdd.
- Peidiwch â mynd i lefydd eraill gyda phobl nad ydych yn eu hadnabod. Os ydych wedi cael ffrae gyda'ch ffrindiau neu'n teimlo'n simsan neu'n emosiynol oherwydd gormod o rywbeth - **siaradwch ag aelod o staff** - maen nhw yno i'ch helpu chi!
- Arhoswch gyda ffrindiau neu bobl yr ydych yn ymddiried ynddynt: yn anffodus, mewn unrhyw fan lle mae nifer fawr o bobl yn ymgasglu mae nifer fechan o bobl yn dod yno i fanteisio ar bobl eraill. Rydych yn darged llawer llai amlwg ac agored i niwed fel grŵp nag ar eich pen eich hun.
- Dylech osgoi mannau tywyll a manteisio ar y golau ychwanegol ar hyd ffyrdd agored ac yn y meysydd parcio.
- Peidiwch â herio pobl sy'n edrych drwy bebyll – dywedwch wrth staff yr Eisteddfod neu'r Heddlu amdanynt. Mae stiwardiaid y maes pebyll yno er mwyn i chi adrodd am ymddygiad amheus ac FE FYDD drwgweithredwyr yn cael eu hel oddi ar y safle.
- Rhowch wybod i stiwardiaid am unrhyw un sy'n ymddwyn yn amheus neu'n ymosodol.
- 'Rydyn ni'n gwybod y byddwch am gael diod neu ddau, ond dylech ystyried y gall yfed yn ormodol eich gadael yn agored i niwed, felly, fel ffrindiau, DYLECH ofalu am eich gilydd. Os ydych yn digwydd cael eich gwahanu oddi wrth eich ffrindiau a'ch bod yn teimlo ormod ar goll i gwrdd â nhw yn eich man cyfarfod, a'ch bod yn teimlo'n simsan oherwydd diod, siaradwch â stiward a all eich helpu yn hytrach na phobl ddieithr.

## Synnwyr Arian

- Peidiwch â chadw eich arian a'ch eitemau gwerthfawr yn yr un lle: rhowch nhw mewn pocedi gwahanol.
- Gwisgwch eich band garddwrn bob amser.
- Dim ond y cardiau credyd sydd eu hangen arnoch y dylech eu cario gyda chi.
- Gwnewch nodyn o rif eich cerdyn credyd a'i adael adref, yn ogystal â'r rhif i'w ffonio os ydych yn digwydd eu colli (fe fydd gwybodaeth am rifau ffôn ar gyfer cardiau credyd sydd ar goll ar gael yn y Mannau Gwybodaeth).
- Os ydych am ddefnyddio bag llaw, ystyriwch fag llaw sy'n mynd ar draws eich corff lle mae prif ran y bag yn cael ei wisgo ar y tu blaen, a chyda'r fflap yn erbyn eich corff, a chofiwch gau'r sip!

## Cyffuriau

Yn syml, peidiwch â dod â nhw.  Bydd cŵn synhwyro o gwmpas ac os cewch eich dal gyda chyffuriau yn eich meddiant, allan â chi.  Os bydd llawer o gyffuriau yn eich meddiant mae'n bosibl hefyd y byddwch yn cael euogfarn, ac wrth gwrs - fydd gwyliau i Unol Daleithiau America allan ohoni oherwydd fe fydd posibilrwydd cryf na chewch chi fynediad i'r wlad os oes gennych euogfarn yn ymwneud â chyffuriau.

## Dim Goddefgarwch

Os ydych chi dan yr argraff y bydd yr heddlu yn anwybyddu defnydd isel o gyffuriau yna rydych yn gwneud camgymeriad mawr.  Bydd polisi dim goddefgarwch o ran bod â chyffuriau dan reolaeth yn eich meddiant.  Rydych chi wedi cael eich rhybuddio - os cewch eich dal yn dod â chyffuriau i'r Eisteddfod neu os ydych yn anwybyddu'r biniau amnest yna mae'n bosibl:

- y cewch eich arestio
- y cewch gofnod troseddol
- y cewch eich hel oddi ar y safle

Mae'r peth mor syml.  Peidiwch â dod â chyffuriau i'r Eisteddfod, neu byddwch yn barod am y canlyniadau.

Peidiwch â difetha eich hwyl eich hun - nid yw'r Heddlu yno i rwystro mynediad i chi i'r Eisteddfod neu i ddifetha eich profiad o'r Ŵyl.  Rydyn ni am i chi gael amser gwych, ac rydyn ni yno i wneud yn siŵr bod pawb sy'n dod i'r Ŵyl yn cael yr un cyfle i fwynhau'r profiad mewn amgylchedd diogel lle nad oes cyffuriau.

## Pobl Ifanc o dan 18 oed

Mae telerau ac amodau caeth ar y tocynnau a roddir i rai dan 18 oed, felly gwnewch yn siŵr fod eich plant yn ymwybodol o'r rhain.  Bydd y stiwardiaid a'r heddlu yn sicrhau bod y telerau ac amodau hyn yn cael eu dilyn.